

YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR CONTRACTAU A BUDDSODDI
DYDDIAD:	7 TACHWEDD 2017
TEITL YR ADRODDIAD:	DYRANNAU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MWY
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cytuno ar swm i'w neilltuo i grantiau mwy yn 2018
ADRODDIAD GAN:	TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN
GWEITHREDU:	Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan Reolwyr Buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth, penderfynu ar y swm a fydd yn cael ei ddyrannu ar gyfer grantiau mwy yn 2018

1. CEFNDIR

- 1.1 Yn 2016 a 2017, rhoddodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn swm o arian o'r neilltu er mwyn cyllido ceisiadau llwyddiannus am grantiau mwy (dros £8,000). Dyrannwyd £200,000 yn 2016 a £350,000 yn 2017.
- 1.2 Yn achos 2017, hysbysebwyd y broses ymgeisio yn eang ac, o ganlyniad, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 31 o geisiadau gan sefydliadau yn gofyn am gymorth – gyda'r ceisiadau i gyd yn dod i gyfanswm o £1.6m. Wedi i'r Pwyllgor Adfywio asesu ac ystyried y ceisiadau, bu 12 ohonynt yn llwyddiannus a chafodd y swm llawn o £350k ei ddyrannu mewn grantiau.
- 1.3 Er mai penderfyniad i'r Ymddiriedolaeth lawn yw penderfynu a ydynt yn dymuno neilltuo cyllid ar gyfer grantiau mwy yn 2018, mater i'r Pwyllgor hwn yw penderfynu ar y swm fydd yn cael ei ddyrannu.

2. Y FETHODOLEG AR GYFER PENDERFYNU AR WERTH Y GRONFA

- 2.1 Dyma'r fethodoleg a ddefnyddiwyd llynedd i benderfynu ar werth y gronfa:-
 - 20% o'r twf yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau yn 2017;
 - llai'r twf a ragwelwyd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau yn 2017 (£56,000);
 - + y twf a ragwelwyd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau yn 2018;
 - ynghyd ag unrhyw arian nad oedd wedi ei ddyrannu yn 2017 (£0).
- 2.2 Dylid nodi bod risg bob amser y gall gwerth cyfalaf y buddsoddiadau ostwng ac y gallai dyrannu swm sy'n rhy uchel ar adeg pan fo gwerth cyfalaf y gronfa yn tyfu, gael effaith andwyol ar ddychweliadau ar fuddsoddiadau yn y dyfodol petai gwerth cyfalaf y gronfa'n dechrau gostwng yn sydyn.
- 2.3 O'r herwydd, rhaid i'r Pwyllgor gymryd i ystyriaeth gyngor y Rheolwr Buddsoddi cyn penderfynu faint o arian fydd yn cael ei ddyrannu gan sicrhau bod y gronfa'n ddigon mawr fel y gall yr Ymddiriedolaeth, os yw'n penderfynu gwneud hynny, helpu cynifer o sefydliadau ag sy'n bosibl heb beri risg i'r lefelau incwm y bydd y gronfa'n eu cynhyrchu yn y dyfodol. Bydd y Rheolwr Buddsoddi'n bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn i roddi'r cyngor priodol.

3. GWEITHREDU ANGENRHEIDIOL

- 3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cyngor y Trysorydd a'r Rheolwr Buddsoddi a phenderfynu ar y swm a fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer grantiau mawr.